View metadata, citation and similar papers at core.ac.uk

brought to you by CORE

provided by Aberystwyth Research Portal

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Aberystwyth University**

# *Adfywio Iaith a Newid Cymdeithasol: Gwerthuso Strategaethau Iaith yng Nghymru a'r Alban: Nodyn Briffio*

Lewis, Dafydd; Royles, Elin

*Publication date:*
2016

*Citation for published version (APA):*
Lewis, D., & Royles, E. (2016, Sep). Adfywio Iaith a Newid Cymdeithasol: Gwerthuso Strategaethau Iaith yng Nghymru a'r Alban: Nodyn Briffio.

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 09. Jul. 2020

# Nodyn Briffio

# Adfywio Iaith a Newid Cymdeithasol: Gwerthuso Strategaethau Iaith yng Nghymru a'r Alban

Ymchwil gan Dr Huw Lewis a Dr Elin Royles ©
hhl@aber.ac.uk / ear@aber.ac.uk

Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru
Prifysgol Aberystwyth

Medi 2016

## 1. Crynodeb Gweithredol

**1.1 Cyd-destun:** Dros y degawdau diwethaf gwelwyd nifer o lywodraethau is-wladwriaethol ar draws Ewrop yn datblygu rhaglenni polisi er mwyn ceisio adfywio rhagolygon ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Yn arwyddocaol, rhoddwyd y rhaglenni polisi hyn ar waith yn ystod cyfnod o drawsnewid cymdeithasol pellgyrhaeddol. Bellach, mae cymdeithasau gorllewinol yn fwyfwy unigolyddol, amrywiol a symudol; mae eu heconomïau yn fwyfwy rhyng-gysylltiedig; ac mae eu strwythurau llywodraethol yn fwyfwy cymhleth, gan gwmpasu ystod eang o actorion gwahanol. Amcan yr ymchwil hwn oedd canfod i ba raddau mae goblygiadau newidiadau o'r fath wedi effeithio ar gynnwys strategaethau diweddar i hybu'r Gymraeg a'r Aeleg (1999-2015). Casgliadau'r ymchwil yw taw cyfyng iawn yw'r ystyriaeth a roddwyd, hyd yn hyn, i oblygiadau'r ystod o newidiadau sydd bellach yn dylanwadu ar sut mae pobl yn byw eu bywydau, yn ymwneud â'i gilydd, ac yn sgil hynny, yn defnyddio iaith. Mae'r ymchwil felly yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn â chyfeiriad ac addasrwydd yr ymdrechion adfywio iaith cyfredol yng Nghymru a'r Alban.

**1.2. Prif Argymhellion:** Mae angen i waith polisi a chynllunio iaith y dyfodol fod yn seiliedig at ystyriaeth fanylach o natur ein cyd-destun cymdeithasol economaidd a gwleidyddol cyfoes. Er mwyn sicrhau hyn, cynigir yr argymhellion canlynol:

**Newid cymdeithasol-demograffig**

- Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i effaith tueddiadau megis graddfa genedigaethau isel a chynnydd mewn aelwydydd cymysg o ran iaith wrth asesu cyfraniad posib trosglwyddiad iaith o fewn y teulu i ymdrechion i gynnyddu y nifer o siaradwyr Cymraeg.
- Dylid gwerthuso dylanwad addysg a gofal blynyddoedd cynnar, o'i gymharu â dylanwad traddodiadol y teulu a'r cartref, ar gymdeithasoli ieithyddol ymysg plant ifanc a datblygu ymyrraethau i gryfhau'r effeithiau cadarnhaol.
- Dylid datblygu dealltwriaeth o arwyddocâd y cynnydd mewn gofal plant rhyng-genedlaethol i drosglwyddiad iaith a bwydo hyn i ymyrraethau polisi.
- Dylid cynllunio mewn modd sy'n rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r gwahanol ffurfiau ar gymunedau iaith a geir bellach - cymunedau daearyddol, cymunedau diddordeb, cymunedau arlein ayb - a chynyddu'r pwyslais ar ymyrraethau sy'n cydnabod natur mwy rhwydweithiol bywyd cyfoes ac sy'n targedu 'cymunedau diddordeb' penodol.
- Dylid ail-asesu y graddau y mae'r gymdogaeth leol yn parhau'n brif ddylanwad ar arferion defnydd iaith unigolion, a datblygu ymyrraethau polisi sy'n cydnabod y cynnydd mewn mudoledd a gwneud cynllunio iaith rhanbarthol neu sirol yn rhan integredig o gynllunio iaith ochr yn ochr â'r lefelau lleol a chymunedol.
- Dylid cynnig cynlluniau i gefnogi siaradwyr yr iaith yng nghyd-destun diboblogi gwledig a shifft tuag at fyw mewn ardaloedd trefol.
- Dylid rhoi mwy o sylw i oblygiadau gwahanol fathau o fewnfudo – mewnfudo o fewn y wladwriaeth a mewnfudo rhyngwladol – a datblygu ymyrraethau sy'n ymateb i'r cyd-destunau gwahanol hyn.

**Newid economaidd**

- Dylid cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i'r gweithle fel rhan o ymdrechion i hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg, yn sgil y duedd i bobl dreulio mwy o amser wrth eu gwaith.
- Dylid sicrhau dealltwriaeth well o'r graddau y mae symud at swyddi sy'n fwy seiliedig ar 'sgiliau' a 'gwybodaeth' yn debygol o effeithio ar statws y Gymraeg yn y gweithle.
- Dylid cryfhau'r gydnabyddiaeth o'r modd y gall cynllunio economaidd rhanbarthol atgyfnerthu cynllunio iaith wrth ymateb i effeithiau globaleiddio economaidd.

**Newid gwleidyddol**

- Dylid cydnabod yn fwy eglur beth sydd bellach yn bosib ac yn briodol i lywodraeth ei wneud wrth geisio atal a gwrthdroi shifft iaith yng nghyd-destun newidiadau yn natur llywodraethiant. Dylid cydnabod y duedd gyfoes i gwtogi'n sylweddol ar lefel gwariant cyhoeddus ac effaith ar allu llywodraeth i ariannu ymyrraethau pwrpasol.
- Dylid hefyd anelu i adnabod ffyrdd amgen o weithredu wrth gynllunio'n ieithyddol, gan gynnwys pwyslais uwch ar rwymedigaethau deddfwriaethol neu edrych i feysydd polisi eraill am enghreifftiau o ffyrdd effeithiol o weithio mewn partneriaeth gyda chyrff trydydd sector a chyrff chymdeithas sifil.

## 2. Cyd-destun yr ymchwil

Er gwaethaf arwyddocad gwleidyddol polisi iaith mewn nifer o leoliadau ar draws y byd, prin fu'r sylw a roddwyd i'r maes gan wyddonwyr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn astudiaethau polisi (Grin, 2003). O'r herwydd, fel y noda Ricento (2006: 18), 'what has not been much discussed is *the practice of language planning*, that is, the development, implementation, and evaluation of specific language policies.'

Amcan yr ymchwil hwn oedd ymateb i'r gwagle hwn trwy ddefnyddio dulliau ymchwil o'r gwyddorau cymdeithasol er mwyn dadansoddi a chloriannu ymyrraethau polisi cyfredol yng Nghymru a'r Alban sy'n anelu at adfywio rhagolygon y Gymraeg a'r Aeleg. Yn benodol, cloriannwyd y graddau mae'r ymyrraethau hyn yn seiliedig ar ystyriaeth ddigonol o oblygiadau newidiadau i natur ein cyd-destun cymdeithasol cyfoes. Edrychwyd ar y prif ddogfennau polisi iaith yn y ddwy wlad: *Iaith Pawb* (Llywodraeth y Cynulliad, 2003) *a Iaith Fyw: Iaith Byw* (Llywodraeth Cymru, 2012) yn achos Cymru a'r *Plana Cànain Nàiseanta Gàidhlig 2012-2017 - Fàs agus Feabhas* (*National Gaelic Language Plan 2012-2017 - Growth and Improvement*, Bòrd na Gàidhlig, 2012) yn achos yr Alban.

## 3. Adfywio iaith: meysydd allweddol

Cam cyntaf yr astudiaeth oedd dadansoddi dogfennau polisi Cymru a'r Alban i ganfod pa fath o ffactorau a gyfeiriwyd atynt fel rhai allweddol o safbwynt dyfodol y Gymraeg a'r Aeleg. Dangosodd hyn bod y math o ffactorau a bwysleisiwyd yn cyfateb i'r rheini sy'n cael lle amlwg yng ngwaith cymdeithasegwyr iaith ac anthropolegwyr iaith wrth astudio'r broses o shifft iaith. Roedd sylw felly yn y dogfennau i'r ffactorau canlynol:

- **Ffactorau demograffig:** y nifer o bobl sy'n siarad yr iaith, ynghyd â'u dosbarthiad ar draws y diriogaeth a hefyd ar draws cenedlaethau.

- **Ffactorau sosioieithyddol:** y lefel o ddefnydd a wneir o'r iaith mewn peuoedd cymdeithasol megis y teulu, y byd addysg, y gweithle, y cyfryngau ayb.

- **Ffactorau gwleidyddol-sefydliadol:** y lefel o gydnabyddiaeth a chefnogaeth i'r iaith drwy gyfrwng polisïau ac arferion gwaith llywodraeth (gwladwriaethol, rhanbarthol ac is-ranbarthol) ynghyd â sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill.

- **Ffactorau economaidd:** statws proffesiynol a chyfoeth materol siaradwyr yr iaith, a llewyrch economaidd ardaloedd lle caiff yr iaith ei siarad.

- **Ffactorau seicolegol:** agweddau gwahanol unigolion a chymunedau tuag at yr iaith, ynghyd â'r statws a'r bri a roddir i'r iaith.

- **Ffactorau ieithyddol:** lefel graffiteiddiad (h.y. y graddau y ceir sustem ysgrifennu ar gyfer yr iaith); lefel safoniad (h.y. y graddau y ceir norm safonol yn hytrach na thafodieithoedd rhanbarthol a chymdeithasol); lefel moderneiddio (h.y. ystod geirfa a therminoleg yr iaith)

**4. Adfywio iaith mewn oes o newidiadau pellgyrhaeddol**

Ail gam yr astudiaeth oedd adnabod rhai o'r prif ffurfiau ar newid cymdeithasol cyfoes ac ystyried y berthynas rhwng y prosesau hyn a'r math o ffactorau a drafodwyd yn y dogfennau polisi fel rhai allweddol o safbwynt ffyniant y Gymraeg a'r Aeleg. Y tri prif gategori o newid cymdeithasol yw: newid cymdeithasol-demograffig, newid economaidd a newid gwleidyddol. Yn achos y tri, gwelwyd bod sail rhesymol i ddisgwyl i gynllunwyr iaith yng Nghymru a'r Alban roi sylw i'w goblygiadau.

**4.1 Newid cymdeithasol-demograffig:** Mae proffil cymdeithasol-demograffig cymdeithasau gorllewinol yn esblygu'n gyflym, gan arwain at newidiadau mawr o ran p*wy* sy'n ffurfio'r cymdeithasau hyn, *ble* mae'r bobl hyn yn byw, a hefyd *sut* maent yn ymwneud â'i gilydd. Y tueddiadau mwyaf arwyddocaol yw:

- Cynnydd mewn amrywiaeth ethnig yn sgil mudo rhyngwladol;
- Poblogaeth sy'n heneiddio yn sgil graddfa genedigaethau isel;
- Newid i drefniadau dyddiol teuluoedd, gan gynnwys trefniadau gofal plant, yn sgil agweddau cymdeithasol mwy rhyddfrydol a 'ffemineiddio' cynyddol ar y farchnad lafur;
- Ffurfiau newydd ar ymwneud cymdeithasol sy'n fwy rhwydweithiol ac sy'n digwydd ar draws ardaloedd daearyddol mwy, yn sgil cynnydd mewn mudoledd a dylanwad cynyddol TGCh;
- Parhad mewn diboblogi gwledig ymhlith cenedlaethau ifanc a chlystyru o amgylch canolfannau mwy trefol.

Casglwyd y dylid disgwyl i strategaethau iaith Cymru a'r Alban roi sylw i oblygiadau rhai o'r tueddiadau cymdeithasol-demograffig hyn, er enghraifft:

- O ystyried y pwyslais ar rôl y cartref teuluol wrth hybu trosglwyddiad iaith rhyng-genedlaethol, byddai'n rhesymol disgwyl i'r dogfennau gynnwys ystyriaeth o oblygiadau newidiadau cyfoes i'r modd mae teuluoedd yn trefnu eu bywyd domestig ac yn gofalu am eu plant.
- O ystyried y pwyslais ar gyfraniad rhwydweithiau lleol, anffurfiol, ac yn aml, gwledig i gynnal patrymau defnydd iaith sefydlog, byddai'n rhesymol disgwyl i'r dogfennau amlygu ymwybyddiaeth o oblygiadau tueddiadau megis trefoli a newidiadau mewn patrymau o ymwneud cymdeithasol o ganlyniad i symudoledd a thwf TGCh.

**4.2 Newid economaidd:** Yn sail i nifer o'r tueddiadau cymdeithasol-demograffig a ddisgrifiwyd uchod mae cyfres o newidiadau economaidd allweddol:

- Newid sylfaenol yn strwythur galwedigaethol nifer o economïau gorllewinol, wrth i ffurfiau corfforol ar gyflogaeth sy'n seiliedig ar gynhyrchu ddirywio ac wrth i swyddi newydd sy'n seiliedig ar sgiliau a gwybodaeth gymryd eu lle.
- Newid pellgyrhaeddol i'r cyd-destun economaidd yn sgil y broses o globaleiddio sydd wedi rhoi diwedd ar economïau cenedlaethol ac arwain at dwf economi fyd-eang sy'n gynyddol rhyng-gysylltiedig.

Casglwyd y dylid disgwyl i strategaethau iaith Cymru a'r Alban roi sylw i oblygiadau rhai o'r tueddiadau economaidd hyn, er enghraifft:

- O ystyried y cyfeirio at yr angen i sicrhau bod y Gymraeg a'r Aeleg yn meddu ar werth economaidd, trwy gael eu defnyddio mewn rhai cyd-destunau fel iaith y gweithle, byddai'n rhesymol disgwyl i'r dogfennau ystyried i ba raddau mae'r amcanion hyn yn dod yn haws neu'n anos i'w gwireddu yn sgil newidiadau economaidd mor sylfaenol.

**4.3 Newid gwleidyddol:** Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd hefyd newidiadau arwyddocaol ym mhatrymau llywodraethiant cymdeithasau gorllewinol:

- Symudiad i ffwrdd o lywodraethau canolog grymus sydd â'r gallu i ddominyddu'r gwaith o lywio cymdeithas.
- Datblygiad trefniadau mwy cymhleth o lunio a gweithredu polisi sy'n cwmpasu ystod ehangach o actorion, er enghraifft cyrff lled braich, cyrff preifat a mudiadau cymdeithas sifil.

Unwaith eto, casglwyd y dylid disgwyl i strategaethau iaith Cymru a'r Alban roi sylw i oblygiadau tueddiadau gwleidyddol o'r fath, er enghraifft:

- O ystyried y pwyslais a roddir yn y dogfennau ar yr angen am gefnogaeth sefydliadol fel rhan o'r broses o adfywio rhagolygon y Gymraeg a'r Aeleg, ac yn enwedig cefnogaeth gref o du llywodraeth ranbarthol, byddai'n rhesymol disgwyl cydnabyddiaeth o oblygiadau posib newidiadau cyfoes yn y modd y caiff polisi cyhoeddus yn cael ei ddatblygu a'i weithredu.

## 5. Gwerthuso strategaethau iaith Cymru a'r Alban

Trydydd cam yr astudiaeth oedd dadansoddi'r dogfennau polisi er mwyn canfod i ba raddau roeddent yn ystyried goblygiadau'r newidiadau cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a amlinellwyd uchod.

Y canfyddiadau oedd:

- Wrth ystyried yr holl ddogfennau, prin iawn oedd yr enghreifftiau o adlewyrchu ar oblygiadau gwahanol newidiadau cyfoes i'r dasg o geisio adfywio rhagolygon y Gymraeg a'r Aeleg. Roedd hyn er gwaetha'r ffaith bod nifer o'r ffactorau ystyriwyd fel rhai allweddol i ddyfodol y ddwy iaith yn ymwneud ag agweddau ar fywyd sydd wedi'u cyffwrdd gan amryw o'r newidiadau hyn. Roedd y mwyafrif helaeth y cyfeiriadau at newidiadau cymdeithasol yn ymwneud â'r categori o newid cymdeithasol-demograffig. Ymhellach, roedd y rhan helaeth o'r achosion yn y categori hwn yn ymwneud ag un math o newid yn benodol: dylanwad cynyddol TGCh.

- Wrth gymharu'r ddogfennaeth o'r ddwy wlad, gwelwyd bod mwy o enghreiffitau o adlewyrchu ar oblygiadau newidiadau cymdeithasol cyfoes yn y dogfennau ar y Gymraeg. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn  yn golygu bod ystyriaeth yn cael ei roi i effaith ystod o newidadau cymdeithasol, economiadd a gwleidyddol perthnasol. Yn hytrach roedd yn deillio'n bennaf o'r sylw cyson iawn yn y dogfennau Cymreig i un math penodol o newid, sef dylanwad cynyddol TGCh.

- Er bod llai o adlewyrchu cyffredinol yn achos yr Alban ar oblygiadau gwahanol newidiadau cymdeithasol, roedd y ddogfen yn rhoi mwy o ystyriaeth i oblygiadau rhai mathau arwyddocaol o newid. Yn benodol, roedd tuedd yn yr Alban i roi ychydig mwy o ystyriaeth i

newidiadau mewn patrymau o ymwneud cymdeithasol a datblygiad ffurfiau gwahanol ar gymuned – tiriogaethol, rhwydweithiol, cymunedau o ddiddordeb ayb – ynghyd â goblygiadau hyn i gynllunio iaith cyfoes.

**6. Casgliadau ac Argymhellion**

Amcan yr ymchwil hwn oedd canfod i ba raddau mae goblygiadau newidiadau cymdeithasol cyfoes wedi derbyn sylw mewn strategaethau i hybu'r Gymraeg a'r Aeleg. Casgliadau'r ymchwil yw mai cyfyng iawn yw'r ystyriaeth a roddwyd, hyd yn hyn, i oblygiadau ystod o newidiadau pwysig sy'n dylanwadu ar sut mae pobl yn byw eu bywydau ac yn ymwneud â'i gilydd. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn â chyfeiriad ac addasrwydd y strategaethau presennol sy'n llywio ymdrechion adfywio iaith yng Nghymru a'r Alban. Mae angen i waith polisi a chynllunio iaith y dyfodol fod yn seiliedig at ystyriaeth fanylach o natur ein cyd-destun cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol cyfoes. Er mwyn sicrhau hyn, cynigir yr argymhellion a nodir ar ddechrau'r papur hwn.

**7. Dulliau Ymchwil**

Defnyddiwyd dulliau dadansoddi cynnwys dehongliadol (interpretative content analysis methods) (Bryman, 2002) er mwyn gwerthuso'r prif ddogfennau polisi sy'n llywio'r ymdrechion adfywio iaith yng Nghymru a'r Alban. Golyga hyn bod yr ymchwilwyr wedi dadansoddi'r dogfennau'n fanwl er mwyn adnabod testun perthnasol i'r ymchwil: (i) testun a oedd yn nodi ffactorau allweddol o safbwynt dyfodol y Gymraeg neu'r Aeleg; a (ii) testun a oedd yn trafod goblygiadau ieithyddol gwahanol newidadau cymdeithasol. Yna, cafodd y darnau hyn o destun eu rhannu'n lled-frawddegau (quasi-sentences) - darnau o destun (e.e. cymal o frawddeg) sy'n fynegiant geiriol o thema neu syniad penodol (Chaney, 2016). Roedd hyn yn golygu bod modd rhoi sylw i'r amryw o themâu neu ddadleuon perthnasol oedd yn cael eu cynnwys mewn brawddegau hir. Wedyn, dosbarthwyd y lled-frawddegau i gyfres o gategoriau thematig. Cryfhawyd hygrededd y broses hon wrth i'r ddau ymchwilydd ddadansoddi'r dogfennau yn annibynnol, gan gymharu canlyniadau ar ôl cwblhau'r gwaith.

**8. Cyfeiriadau**


- Bryman, A. 2012. *Social Research Methods*, Oxford: Oxford University Press
- Bòrd na Gàidhlig, 2012. *National Gaelic Language Plan 2012-2017 - Growth and Improvement*, Inverness: Bòrd na Gàidhlig.
- Chaney, P. 2016. *Using mixed-methods analysis to explore issue representation in parliamentary proceedings,* yn: P. Brindle (gol.) *SAGE Research Methods*, London: SAGE
- Grin, F. 2003. *Language Policy Evaluation and the European Charter for Regional or Minority Languages*, Basingstoke: Palgrave Macmillan
- Lewis, H a Royles, E, 2016. 'Language Revitalisation and Social Transformation: Evaluating the Language Policy Frameworks of Sub-state Governments in Wales and Scotland' Erthygl gyda gwasg.
- Llywodraeth y Cynulliad. 2003. *Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog*, Caerdydd: Llywodraeth y Cynulliad.
- Llywodraeth Cymru. 2012. *Iaith Fyw: Iaith Byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-2017*, Cardiff: Welsh Government.
- Ricento, T. (gol.) 2006. *An Introduction to Language Policy*, London: Blackwell Publishing